



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Datganiad Cyngor Celfyddydau Cymru am Gaethwasiaeth Fodern

Pwrpas

Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern Prydain (2015) a chyhoeddi'r datganiad yma bob blwyddyn. Hefyd rydym ni'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru am Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. <https://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/29358CodeofPracticeEthicalEmploymentinsupplychainsEnglishWEB.pdf>

Mae'r datganiad yma am Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol Ebrill 2019-Mawrth 2020.

Pwy ydym ni?

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau Cymru.

Bob dydd, mae pobl ledled Cymru yn mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddyn nhw. Rydym ni'n cefnogi a thyfu'r gweithgarwch yma drwy ddefnyddio'r arian cyhoeddus mae Llywodraeth Cymru yn ei roi inni a'r arian achos da rydym ni'n ei gael gan y Loteri Genedlaethol.

Drwy reoli'r arian yma a'i fuddsoddi mewn gweithgarwch creadigol, rydym ni'n cyfrannu at safon fyw pobl ac at lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Ein cyfeiriad cofrestredig yw Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL

Diffiniadau

Rydym ni'n ystyried bod caethwasiaeth fodern yn cwmpasu:

- masnachu pobl
- gorfodi pobl i weithio drwy fygythiad corfforol neu feddyliol
- cael eich perchnogi neu'ch rheoli gan gyflogwr drwy gam-drin neu fygwth cam-drin

- cael eich dad-ddynoli, neu'ch trin fel nwydd neu eiddo
- cael eich cyfyngu'n gorfforol neu dderbyn cyfyngiadau ar eich rhyddid i symud

Polisiau

Rydym ni'n ymrwymedig i sicrhau bod ein harferion cyflogaeth a'n polisiau a gweithdrefnau corfforaethol yn diogelu hawliau ein holl weithwyr. Rydym ni'n gweithredu'n well na'r safonau isaf o ran yr hyn sydd ei angen yn ôl y gyfraith i sicrhau bod ein gweithwyr yn ddiogel, yn cael eu gwobrwyo'n deg a chael eu gwerthfawrogi. Bob blwyddyn rydym ni'n cyhoeddi ein datganiad polisi cyflog ar ein gwefan.

Rydym ni'n gwybod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr ac rydym ni'n ymrwymedig i gynnig telerau ac amodau teg ar gyfer ein holl staff. Rydym ni'n meincnodi ein telerau ac amodau yn erbyn cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym ni'n ymgynghori hefyd â'n hundeb llafur cydnabyddedig i sicrhau ein bod ni'n cynnig cyflog a buddiannau cystadleuol i'n staff er mwyn denu staff newydd a chadw ein gweithlu presennol.

Polisiau a dogfennau eraill sy'n berthnasol:

- contract cyflogaeth ac amodau gwaith
- cod yr arfer gorau
- chwythu'r chwiban
- gweithwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr
- aflonyddu a bwlio
- recriwtio
- cytundeb â'r Undeb

Cadwyni Cyflenwi a Chaffael

Rydym ni wedi mabwysiadu Polisi ar Gaffael Moesegol sy'n berthnasol i'r canlynol:

- pob aelod o'r Cyngor, ein staff, ein hasiantau a phobl rydym ni'n eu penodi
- staff sy'n cael eu cyflogi'n anuniongyrchol neu sy'n dod drwy law contractwyr neu asiantaethau cyflogaeth i weithio ar ein safleoedd neu i wneud gwaith inni

Rhaid i bob un o'n cyflenwyr gadw at yr amodau sydd yn ein polisi

Cydymffurfio

Drwy ymrwymo i gytundeb â ni, rhaid i gyflenwyr gytuno â thelerau'r polisi a'u derbyn.

Diwydrwydd dyladwy

Rydym ni'n gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisi i sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o'r peryglon o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein gweithgareddau caffael a gweithio. Mae gennym weithdrefnau ar waith er mwyn:

- nodi ac asesu meysydd o berygl posibl
- lleihau'r perygl bod caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd
- monitro meysydd o berygl posibl yn ein cadwyni cyflenwi
- diogelu pobl sy'n chwythu'r chwiban

Adolygu

Rydym ni'n adolygu a diweddarau'r polisi'n flynyddol. Byddwn ni'n ei wneud nesaf yn Ebrill 2020.



Llofnod y Prif Weithredwr

30 Mai 2020